PWYLLGOR CYNLLUNIO

DYDD IAU, 6 GORFFENNAF 2023

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Stubbs(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Humphreys, Ahmed, Hunt, Joyce, Michael, Reid-Jones, Robson a/ac Sattar |

10 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Wong.

11 : DATGAN BUDDIANNAU

Datganodd y Cynghorydd Hunt fuddiant personol a rhagfarnol mewn eitemau 5a (23/00386/FUL) a 5b (23/00385/FUL) fel cadeirydd llywodraethwyr Ysgol Arbennig The Court yn Llanisien, a'i fwriad i adael yr ystafell drwy gydol y ddwy eitem.

12 : COFNODION

Cymeradwywyd bod cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 8 Mehefin yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

13 : DEISEBAU

Ni chafwyd unrhyw ddeisebau.

14 : CEISIADAU RHEOLI DATBLYGU

Ystyriodd y Pwyllgor y rhestr o geisiadau rheoli datblygu yn unol â Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor hwn yn unol â phwerau a ddirprwyir iddo benderfynu ar y ceisiadau rheoli datblygu canlynol yn ôl yr argymhelliad a nodir yn adroddiadau Cyfarwyddwr Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau pellach fel y manylir arnynt isod, a rhoi gwybod am y penderfyniadau'n unol ag Adran 70 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 neu Adran 74 Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

**CEISIADAU A GYMERADWYWYD**

*(Gadawodd y Cynghorydd Garry Hunt y cyfarfod, yn unol â'i fudd personol rhagfarnol, wrth ystyried y cais hwn).*

23/00386/FUL – LLANRHYMNI
YSGOL GYNRADD YR EGLWYS YNG NGHYMRU ST MELLONS, DUNSTER ROAD, LLANRHYMNI

Adeiladu Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan ymgorffori gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r ysgol ADY newydd, gan gynnwys darparu ardaloedd

amwynder awyr agored newydd, darpariaeth chwarae a chwaraeon, tirlunio, triniaethau ffiniau, mynediad, parcio ceir, draenio, a'r holl waith cysylltiedig.

*(Gadawodd y Cynghorydd Garry Hunt y cyfarfod, yn unol â'i fudd personol rhagfarnol, wrth ystyried y cais hwn).*

23/00385/FUL – Y TYLLGOED
TIR I'R DE O YSGOL GYNRADD FAIRWATER, WELLWRIGHT ROAD, Y TYLLGOED

Adeiladu Ysgol Anghenion Dysgu Ychwanegol, gan ymgorffori gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r ysgol ADY newydd, gan gynnwys darparu ardaloedd amwynder awyr agored newydd, darpariaeth chwarae a chwaraeon, tirlunio, triniaethau ffiniau, mynediad, parcio ceir, draenio, a'r holl waith cysylltiedig.

23/01028/FUL – YSTUM TAF
YSGOL ARBENNIG MEADOWBANK, HEOL COLWILL, YSTUM TAF, CAERDYDD

Ychwanegu adeilad un llawr ar safle'r ysgol i ddarparu ar gyfer niferoedd cynyddol o ddisgyblion, gan gynnwys ardal chwarae allanol gysylltiedig.  Cynigir datblygiad arall ar y maes parcio presennol i gynyddu'r ddarpariaeth gollwng a pharcio yn unol â chynnydd yn niferoedd y disgyblion a'r staff.

15 : CEISIADAU WEDI'U PENDERFYNU GAN BWERAU DIRPRWYEDIG

Nodwyd y ceisiadau a benderfynwyd gan bwerau dirprwyedig rhwng 27 Mai 2023 a 23 Mehefin 2023.

16 : EITEMAU BRYS (OS OES RHAI)

Doedd dim.

17 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

3 Awst 2023 am 10.30am.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.10 am